


# Daw treftadaeth â ffyniant

Mae Tai Hanesyddol Cymru yn cynrychioli dros 100 o dai a gerddi hanesyddol sydd mewn perchnogaeth annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o'n mannau mwyaf arwyddocaol a hanesyddol. Yn 2023 cafwyd bron i 200,000 o ymweliadau a chasglwyd £861,000 gan ymwelwyr ar gyfer economi Cymru. Mae nifer o'n haelodau yn atyniadau pwysig i dwristiaid, busnesau bychain a chyflogwyr sy'n cyfrannu at economi gwledig a lleol Cymru.

Mae busnesau tai hanesyddol Cymru wedi wynebu heriau sylweddol yn sgil y pandemig, ac yn fwy diweddar, yr argyfwng costau byw, yn ogystal â'r cynnydd parhaol yn y gost o adnewyddu a chynnal a chadw. Mae'r heriau hyn yn parhau i frathu. Mae cyflwyno deddfwriaeth newydd yn awr yn ychwanegu at y pwysau sydd ar y tai hanesyddol hynny sy'n dibynnu'n llwyr ar dwristiaeth am eu hincwm. Heb reoliad addas a deddfwriaeth gefnogol, bydd gofalwyr ein treftadaeth yn wynebu dyfodol hynod o anodd.

Rydym yn awyddus i weld polisïau sy'n targedu nid yn unig hwb tymor byr, sydd ei wir angen ar ein hatyniadau treftadaeth a'r economïau lleol er mwyn eu gosod ar seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol, ond a fydd hefyd yn hybu twristiaid i deithio drwy Gymru ben baladr. Yn y mannau hynny lle mae ein treftadaeth yn hygyrch i bawb, mae'n amlwg ei fod yn cefnogi iechyd a ffitrwydd a'i fod yn allweddol i achosi twf yn yr economi leol. Mae'n holl bwysig bod Llywodraethau Cymru a San Steffan yn cydnabod gwerth ein tai a'n gerddi unigryw a hanesyddol a'u bod yn rhoi polisïau ar waith fydd yn gwarantu eu bod ar gael i genedlaethau'r dyfodol allu eu gwerthfawrogi a'u mwynhau.

## EIN HARGYMHELLION

1. **Diogelu ein treftadaeth rhag canlyniadau anfwriadol**
2. **Datgloi golud cudd yr economi wledig**
3. **Cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy a chynaliadwy**
4. **Creu Cymru sy'n gystadleuol ac yn gyrchfan gynaliadwy i dwristiaid**
5. **Ysgogi buddsoddiad mewn projectau atgyweirio**

## 1. Diogelu ein treftadaeth rhag canlyniadau anfwriadol

Mae goroesiad ein treftadaeth unigryw, fyd-enwog, yn dibynnu ar greu fframwaith o gefnogaeth ariannol a rheoleiddiol. Gall newidiadau i reoliadau ar agweddau megis effeithlonrwydd ynni a lletya byr dymor gael effaith andwyol ar fusnesau tai hanesyddol a gwneud y gwahaniaeth rhwng atyniad llewyrchus a busnes sy'n mynd â'i ben iddo. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo o ddifrif i ystyried effaith economaidd posibl y newidiadau sydd i'w fframwaith reoli ar ein treftadaeth fregus.

## 2. Datgloi golud cudd yr economi wledig

Mae cymaint rhagor gan yr economi gwledig i'w gynnig, ond fel y mae pethau ar hyn o bryd, fe'i gadewir yn aml ar y cyrion, ac yn ddiweddar mae wedi dioddef yn enbyd o ddiffyg buddsoddiad. Gall busnesau tai hanesyddol ddwyn buddiannau sylweddol i economiau gwledig lleol, felly disgwylir rhagor o ymrwymiad gan weinidogion Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth San Steffan er mwyn dod i'r afael â heriau isadeiledd gwledig. Rhaid i ni sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lle atyniadol i fyw a gweithio ynddo fel y gall gyrraedd ei lawn botensial fel pwerdy economaidd yn y byd modern.

Prif lun: © Stad Penarlâg, Jack Finnigan


© Castell y Gelli


Cerddoriaeth yn y castell © Castell y Gelli

## 3. Cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy a chynaliadwy

Bydd angen mwy na chyngor arbenigol ar y sector treftadaeth er mwyn gallu ymateb yn llawn i'r argyfwng hinsawdd. Bydd angen cymorth ariannol, rheoleiddiol ac ymarferol i gynorthwyo perchnogion i osod ynni effeithiol ar waith mewn dull gofalus sy'n gwarchod adeiladau hanesyddol unigryw a gwerthfawr Cymru. Fel y cydnabyddir yn y Strategaeth Wres i Gymru, mae angen system o gynllunio sy'n addas i'w bwrpas wrth i ni anelu at gyrraedd sero net. Bydd angen rhagor o fuddsoddiad mewn ffynonellau egni adnewyddadwy i gymunedau gwledig, i leihau'r ôl troed carbon a gostwng costau tanwydd adnewyddadwy, i gynyddu hunanddigonedd ac integreiddio'r sector treftadaeth â phrojectau ynni gwyrdd yn eu cymunedau. Yna byddai dyfodol llewyrchus a chynaliadwy gan ein hadeiladau hanesyddol a thraddodiadol.


Llun drwy garedigrwydd Castell Gwrych

## 4. Creu Cymru sy'n gystadleuol ac yn gyrchfan gynaliadwy i dwristiaid

Mae creu marchnad gynaliadwy a bywiog yn hanfodol i'n tai cofrestredig a'n cymunedau gwledig. Rydym yn llwyr gefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddo roi blaenoriaeth i dwristiaeth treftadaeth. Er hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod isadeiledd addas i dwristiaeth ar draws Cymru gyfan - nid yn unig yn y mannau poblogaidd - gan annog lletya byr dymor, lle nad yw hynny'n amharu ar anghenion tai lleol, fel y gall cymunedau gwledig ac economïau lleol fanteisio ar dwristiaeth a hybu rhagor o dwristiaeth lle bo angen hynny.

## 5. Ysgogi buddsoddiad mewn projectau atgyweirio

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeisyfu ar y Llywodraeth nesaf yn San Steffan i gyflwyno mesur bydd yn dileu'r Dreth ar Werth ar atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau rhestredig sydd ar agor i'r cyhoedd. Byddai hyn yn galluogi atyniadau treftadaeth i fynd i'r afael â'r atgyweirio sydd wedi cronni ers amser, buddsoddi yn eu busnesau, creu swyddi lleol a bywiogi bywyd economaidd cymunedau gwledig Cymru. Drwy hyn fe gedwir ein treftadaeth yn fyw i'r canrifoedd a ddêl.

CYFLOGAETH

IECHYD A FFITRWYDD

CYNALIADWYAETH


*Gŵyl Gwersyll Haf*
*© Stad Penarlâg, Adran Dau*


***Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:***
***policy@historichouses.org***
***0207 259 5688***
***taihanesyddol.cymru***